

Ed Miliband a'r panel rhyngwladol newid hinsawdd

Yr Athro Gareth Wyn Jones a dau ddigwyddiad sy'n cadarnhau'r pryderon am fygythiad newid hinsawdd ...

YN ystod yr wythnos ddiwethaf dringodd rhai o bynciau canolog y golofn hon, sef ynni a newid hinsawdd, i ben yr agenda: dros dro o leiaf.

Cododd sylwadau Ed Miliband dipyn o nyth cacwn gyda'i fwriad, o ennill grym, i rewi prisiau tanwydd am 20 mis. Ymateb, nid annisgwyl, y cwmnïau mawr 'pwerus' oedd bygwth atal neu leihau eu buddsoddiadau a bygwth ein cyflenwadau trydan o fewn y degawd.

Roedden nhw hefyd yn cwyno na fyddai'n bosib iddyn nhw ymateb i newidiadau yn y farchnad ynni rhyngwladol.

Mae hyn yn ddiddorol am sawl rheswm. Mae yna gydnabyddiaeth agored bod rhaid cau'r pwerdai mwya' llygredig, bod rhaid chwilio am gyflenwadau amgenach o drydan a bod rhaid buddsoddi i wireddu hynny.

Yn ail, mae 'na gydnabyddiaeth bod dyfodol ein cyflenwadau trydan yn fregus ac, yn drydydd, yng ngolwg Miliband, nad yw'r farchnad rydd am ddatrys y broblem ynni yn gymdeithasol deg.

Yn anffodus, chlywais i ddim trafodaeth agored ar y broblem ddwys o sut i ddiwallu ein galw am ynni **ac**, ar yr un pryd, i leihau lefel y Nwyon Tŷ Gwydr yr ydan ni'n eu gollwng a sicrhau tegwch i'r tlotaf.

YMFALCHIO YN EIN GWYDDONYDD DISGLAIR

Mae hyn yn arwain yn naturiol at adroddiad y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd [IPCC] a gyhoeddodd ei 5ed Asesiad 27 Medi.

Mae'n bwysig i ni yng Nghymru gofio ac ymfalchio yng nghadeirydd cyntaf y Panel, Syr John Houghton, brodor o Ddyserth sydd, ar ôl gyrfa ddisglair iawn, wedi ymddeol i Aberdyfi. Fo, yn anad neb, a ddaeth â'r bygythiad hwn i sylw'r byd. Mi ddylai ei famwlad roi'r un clod iddo ag y mae sêr chwaraeon ac adloniant yn ei gael.

Does dim sioc fawr yn yr adroddiad. Mae'n cadarnhau, yn hynod fanwl, bod ein byd yn cynhesu a'n gweithgareddau ni sy'n bennaf gyfrifol, gyda 95% sicrwydd.

Mae'r adroddiad yn ceisio cyflwyno gwybodaeth mewn dull ystadegol gyda graddfeydd o hyder neu sicrwydd. Rhai casgliadau yn ymylu at sicrwydd llwyr, sef hyder o 99%, eraill yn lled ansicr.

Ond mae'n werth canolbwyntio ar y prif gasgliad, sef, gyda hyder o 95%, y bydd ein defnydd o danwydd hydrocarbon yn arwain at newidiadau pell gyrraeddol a pheryglus yn ein planed.

Maen nhw'n rhagweld cynnydd ar gyfartaledd yn y tymheredd o 1.5 i 4°C, tywydd mwy eithafol ac anwadal a chynnydd o hyd at 82cm yn lefel y môr cyn diwedd y ganrif. Hyn oll yn cymhlethu a dwysáu'r problemau sy'n bod eisoes – bwyd ein poblogaeth gynyddol, lleihau tiodi a sefydlogi'r cyfundrefnau ariannol simsan.

HAPUS I GYMRYD SIAWNS?

Dw i'n gofyn o ddifri a fyddech chi, gyda'ch plant a'ch wyrion yn y seti agosaf, yn fodlon teithio ar awyren neu long ofod o'r enw 'Daear' petai mwy na mil o'r prif arbenigwyr ar yr wyddoniaeth a'r dechnoleg berthnasol yn eich rhybuddio mai dim ond un siawns mewn ugain sydd yna o gyrraedd pen y daith yn ddiogel? Sgersli bilff!!

Hyd yn oed pe baech am gymryd y fath siawns yn bersonol, peth cwbl wahanol fyddai gwneud hynny gyda'r teulu. Ond dyna be ydan ni'n ei wneud!

I ddal at y gymhariaeth gyda theithiau awyr. Mae tua 87,000 o deithiau awyr o bob math yn yr Unol Daleithiau bob dydd a mwy na 6,000 yng ngwledydd Prydain.

Beth mewn difri fyddai'r ymateb os byddai 95% o'r rhain yn arwain at drafferthion sylweddol. Mi wn ein bod yn craffu i'r dyfodol ac mae hynny'n anodd ond, yn sicr, byddem yn mynnu newidiadau yn y dechnoleg ar frys ac yn gorfodi ein llywodraethau i ymateb.

Rhaid pwysleisio bod yr adroddiad yn ffrwyth consensws gofalus a cheidwadol. Dydi o ddim, hyd y gwela' i, yn trin yn fanwl rhai materion sy'n achosi pryder fel y posibilrwydd o gyflymu carlamus yn y prosesau a chroesi trothwy, e.e. rhyddhau methan o wely'r Arctic neu'r twndra a newid sydyn yng ngallu'r Arctig i adlewyrchu golau gan brysuero diflaniad rhew o'r môr a'r Ynys Las [Greenland]. Gair i gall!

Hydref 3, 2013